

**CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG**  
**Gwyndy, Bryncroes, Sarn, Pwllheli. Gwynedd. LL53 8ET.**  
**Teleffon: Botwnnog 730357**

7fed Hydref 2020.

Annwyl Aelod,

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor drwy ddefnyddio 'zoom' (drwy garedigrwydd Y Cynghorydd Michael Strain) **Nos Lun nesaf, 12fed Hydref, 2020** am 7.30 y.h. Bydd y Cynghorydd Strain yn anfon e-bost atoch tua chwarter awr cyn yr amser dechrau fel y gallwch ymuno yn y cyfarfod.

**RHAGLEN**

**1. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

**2. YMDDIHEURIADAU**

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn ffurflenni.

**4. CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 14eg MEDI, 2020**

Copi'n amgaeedig.

"A"

**5. CEISIADAU CYNLLUNIO**

I ystyried y ceisiadau a ganlyn ac unrhyw gais ddaw i law cyn noson y Cyngor. Os bydd cais arall i law, rhoddir gwybodaeth i chwi ymlaen llaw er rhoi cyfle i chwi gael golwg ar y we. **Noder** – nid oes copiau ar bapur yn dod mwyach ond gellwch weld manylion y cais ar safle we Cyngor Gwynedd drwy ddilyn y dolenni o dan y pennawd 'Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu'.

- (a) Cais C20/0720/32/LL – dymchwel dau estyniad presennol ac adnewyddu'r prif adeilad ynghyd ag estyniad ochr a chefn newydd. Yr oll yn unllawr – 2 Pentre, Botwnnog.
- (b) Cais C20/0703/32/LL – codi adeilad maethyddol i storio peiriannau yn Nhreffollwyn Bach, Botwnnog.
- (c) Cais C20/0764/32/LL – ymestyn tymor gwyliau carafannau o 8 mis i 12 mis i fod yn agored trwy'r flwyddyn ar gyfer defnydd gwyliau – Maes Carafannau Gelliwig Farm, Botwnnog.
- (d) Cais C20/753/32/DT – codi estyniad deulawr cefn yn Nhan-y-Maen, Penygroeslon.

**6. MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**

A oes unrhyw ffordd/llwybr angen sylw.

7. **MATERION IECHYD**

A oes unrhyw fater angen ei anfon ymlaen i Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru?

8. **CYNGOR TREF NEFYN**

Cais am gefnogaeth gan Gyngor Tref Nefyn i fesurau fyddai'n atal tai rhag mynd o afael pobl leol.

Copi'n amgaeedig.

“B”

9. **O DDRWS I DDRWS**

Llythyr Is-Gadeirydd O Ddrws i Ddrws yn gwahodd y Cyngor enwebu cynrychilydd i wasanaethu ar y Bwrdd Rheoli.

Copi'n amgaeedig.

“C”


10. **AWDURDOD I DALU**

I awdurdodi unrhyw daliad a ddaw yn ddyledus cyn noson y Cyngor.

11. **ARCHWILIAD Y CYFRIFON I FYNY I 31ain MAWRTH, 2020**

Adroddiad y Clarc.

Yn gywir,



Clarc

**AELODAETH Y CYNGOR  
Y CYNGHORWYR**

David Brunelli  
Gwenan Griffith  
Glyn Roberts  
Glenys Williams

Carys H. Evans  
Dylan Parry Jones  
Michael Strain  
Siôn Williams

Elin Hughes  
Ifor Owen  
Carys E. Williams